OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 462 (Cy. 55)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2014

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 ("y Rheoliadau Optegol") sy'n darparu ar gyfer taliadau i'w gwneud drwy system dalebau o ran y costau yr aethpwyd iddynt gan gategorïau penodol o bersonau mewn cysylltiad â phrofion golwg a chyflenwi, amnewid a thrwsio teclynnau optegol.

Mae rheoliad 2 a'r Atodlen yn diwygio Atodlenni 1, 2 a 3 i'r Rheoliadau Optegol i gynyddu gwerth y talebau a ddyroddir tuag at y gost o gyflenwi ac amnewid sbectolau a lensys cyffwrdd, i gynyddu gwerthoedd ychwanegol y talebau ar gyfer prismau, arlliwiau, lensys ffotocromaidd a chategorïau arbennig o declynnau ac i gynyddu gwerth y talebau a ddyroddir tuag at y gost o drwsio ac amnewid teclynnau optegol.

Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn perthynas â thalebau a dderbyniwyd neu a ddefnyddiwyd cyn 31 Mawrth 2014.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 462 (Cy. 55)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *1 Mawrth 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *4 Mawrth 2014* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 128, 129, 130, a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2014 sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2014.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Rheoliadau Optegol" ("*the Optical Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997(**2**).

**Diwygio'r Atodlenni i'r Rheoliadau Optegol**

**2.**—(1) Mae Atodlenni 1 i 3 i'r Rheoliadau Optegol wedi eu diwygio yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn Atodlen 1 (codau llythrennau ac wynebwerthoedd talebau – cyflenwi ac amnewid) yng ngholofn (3) o'r tabl (wynebwerth taleb), yn lle pob swm a bennir yng ngholofn (1) o dabl 1 isod rhodder

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 1997/818 fel y'i diwygiwyd.

y swm a bennir mewn perthynas ag ef yng ngholofn (2) o'r tabl isod:

**Tabl 1**

| *(1) Swm Blaenorol* | *(2) Swm Newydd* |
|---|---|
| £37.50 | £38.30 |
| £57.00 | £58.10 |
| £83.40 | £85.10 |
| £188.40 | £192.20 |
| £64.80 | £66.10 |
| £82.40 | £84.00 |
| £106.90 | £109.00 |
| £207.20 | £211.30 |
| £192.90 | £196.80 |
| £54.70 | £55.80 |

(3) Yn Atodlen 2 (prismau, arlliwiau, lensys ffotocromaidd, sbectolau bach a sbectolau arbennig, a theclynnau cymhleth)—

(a) ym mharagraff 1(1)(a), yn lle "£12.20" rhodder "£12.40";

(b) ym mharagraff 1(1)(b), yn lle "£14.70" rhodder "£15.00";

(c) ym mharagraff 1(1)(c), yn lle "£4.10" rhodder "£4.20";

(d) ym mharagraff 1(1)(d), yn lle "£4.60" rhodder "£4.70";

(e) ym mharagraff 1(1)(e), yn lle "£61.80", "£54.75" a "£29.60" rhodder "£63.00", "£55.80" a "£30.20" yn eu trefn;

(f) ym mharagraff 1(1)(g), yn lle "£61.80" rhodder "£63.00";

(g) ym mharagraff 2(a), yn lle "£14.10" rhodder "£14.40"; a

(h) ym mharagraff 2(b), yn lle "£35.90" rhodder "£36.60".

(4) Yn lle Atodlen 3 (gwerthoedd talebau - trwsio), rhodder yr Atodlen 3 a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

**Darpariaeth Drosiannol**

**3.** Dim ond mewn perthynas â thaleb a dderbynnir neu a ddefnyddir yn unol â rheoliad 12 neu reoliad 17 o'r Rheoliadau Optegol ar 1 Ebrill 2014 neu ar ôl hynny y mae'r symiau a amnewidir gan reoliad 2 yn gymwys.

*Mark Drakeford*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
1 Mawrth 2014

## YR ATODLEN Rheoliad 2(4)

## Atodlen 3 i'r Rheoliadau Optegol fel y'i hamnewidir gan y Rheoliadau hyn

## "SCHEDULE 3

## Voucher Values Repair Regulation 19(2) and (3)

| *(1)* *Nature of Repair* | *(2)* *Letter of Codes - Values* | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Repair or replacement of one lens | 11.95 | 21.85 | 35.35 | 88.90 | 25.85 | 34.80 | 47.30 | 98.45 | 91.20 |
| Repair or replacement of two lenses | 23.90 | 43.70 | 70.70 | 177.80 | 51.70 | 69.60 | 94.60 | 196.90 | 182.40 |
| Repair or replacement of: the front of a frame | 12.25 | 12.25 | 12.25 | 12.25 | 12.25 | 12.25 | 12.25 | 12.25 | 12.25 |
| a side of a frame | 7.25 | 7.25 | 7.25 | 7.25 | 7.25 | 7.25 | 7.25 | 7.25 | 7.25 |
| the whole frame | 14.40 | 14.40 | 14.40 | 14.40 | 14.40 | 14.40 | 14.40 | 14.40 | 14.40" |